Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) ar gyfer Canol Tref y Rhyl 2024

Crynodeb o’r adborth wedi’u dderbyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 13 Tachwedd 2023 a 21 Ionawr 2024.

Bu i gyfanswm o 100 o ymatebwyr edrych ar yr arolwg ar-lein, er na fu i bob un ateb y cwestiynau. Cafwyd yr ymatebion gan y canlynol:

Math yr ymatebwyr	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Rwy’n byw yn (neu ger) yr ardal GGMC arfaethedig	37	38.14%
Rwy’n gweithio yn (neu ger) yr ardal GGMC arfaethedig	18	18.56%
Rwy’n byw neu’n gweithio yn rhywle arall yn y Rhyl	23	23.71%
Rwy’n Aelod etholedig (fel Cynghorydd Tref, Cynghorydd Sir, Aelod o’r Senedd neu’n Aelod Seneddol) sy’n gwasanaethu y Rhyl neu’r gymuned leol ehangach	5	5.15%
Rwy’n gweithio neu’n gwirfoddoli i sefydliad sy’n helpu pobl sydd angen cefnogaeth i reoli eu hymddygiad gwrthgymdeithasol.	0	0%
Rwy’n aelod o staff yng Nghyngor Sir Ddinbych	3	3.09%
Rwy’n gweithio i Heddlu Gogledd Cymru	2	2.06%
Arall	9	9.28%

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

GGMC Canol Tref y Rhyl 2024

Adborth ar yr ymgynghoriad

Cwestiwn 1:

Ydych chi'n cytuno y dylai Cyngor Sir Ddinbych a Heddlu Gogledd Cymru geisio cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) ar gyfer Canol Tref Y Rhyl am uchafswm o dair blynedd, tan 2027?

Effaith y PSPO fydd annog pobl i beidio ymddwyn yn anghymdeithasol a/neu yfed ar y stryd o fewn yr ardal a nodwyd.

Ymateb	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Ydw	88	91.67%
Na	5	5.21%
Nid wyf yn siŵr / Nid oes gennyf farn	3	3.13%
CYFANSWM	**96**	**N/A**

GGMC Canol Tref y Rhyl 2024

Adborth ar yr ymgynghoriad

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno os cyflwynir, y dylai'r PSPO arfaethedig ar gyfer Canol Tref Y Rhyl gynnwys pwerau i ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yfed ar y stryd?

Byddai'r pwerau a roddir o dan y Gorchymyn yn cynnwys:

- Pwerau i bobl adael (e.e. gwneud iddynt symud i ffwrdd) o'r ardal gyfyngedig os ydynt yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu'n yfed yn y stryd.
- Pwerau i atal pobl y gofynnwyd iddynt symud rhag dychwelyd i'r ardal dan gyfyngiadau am gyfnod o hyd at 48 awr.
- I atal pobl rhag yfed yn y stryd
- Pwerau i ofyn i bobl i ildio'r alcohol yn eu heiddo os yw'n cael ei yfed yn y stryd, neu os yw'n debyg o gael ei yfed yn y stryd

Dylai'r PSPO arfaethedig ar gyfer Canol Tref Y Rhyl gynnwys pwerau i ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol?	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Ydw	89	92.71%
Na	3	3.13%
Nid wyf yn siŵr / Nid oes gennyf farn	4	4.17%
CYFANSWM	**96**	**N/A**

GGMC Canol Tref y Rhyl 2024

Adborth ar yr ymgynghoriad

Dylai'r PSPO arfaethedig ar gyfer Canol Tref Y Rhyl gynnwys pwerau i ddelio gydag yfed ar y stryd?	Number of respondents	Percentage of overall respondents
Ydw	84	90.32%
Na	5	5.38%
Nid wyf yn siŵr / Nid oes gennyf farn	4	4.30%
CYFANSWM	**93**	**N/A**

Cwestiwn 3

Os byddai'r PSPO ar gyfer canol tref Y Rhyl yn mynd yn ei flaen, ydych chi'n cytuno gyda'r ffiniau arfaethedig ar gyfer yr ardal dan gyfyngiadau?

Ymateb	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr
Ydw	69	75.82%
Na	19	20.88%
Nid wyf yn siŵr / Nid oes gennyf farn	3	3.30%
CYFANSWM	**91**	**N/A**

GGMC Canol Tref y Rhyl 2024
Adborth ar yr ymgynghoriad

Sylwadau a Gafwyd

O'r 100 o Ymatebwyr a edrychodd ar yr arolwg, cawsom gyfanswm o 66 o sylwadau. Codwyd nifer fechan o bryderon mewn tri chategori, a rhestrir y rhain isod

1. **Sylwadau unigol yn ymwneud ag ehangu'r ardal GGMC.**

Cafwyd 18 ymateb unigol, 18% o'r holl ymatebwyr i'r arolwg.

Ein ymateb:
Ni ellir gweithredu GGMC heb dystiolaeth helaeth o angen. Rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru dystiolaeth i'r awdurdod lleol, a gynhaliodd brawf cyfreithiol manwl i gyfiawnhau amodau'r Gorchymyn, a'r ardal y bydd yn berthnasol iddo. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dweud, yn seiliedig ar y dystiolaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, na allant gyfiawnhau'n gyfreithiol ymestyn i ardal Cei Marina'r Rhyl.

2. **Sylwadau unigol yn ymwneud â phryderon ynglŷn â pheidio â chynnwys defnyddio cyffuriau yn y GGMC**

Cafwyd 9 ymateb unigol, 9% o'r holl ymatebwyr i'r arolwg.

Ein ymateb:
Mae gan yr Heddlu bwerau eisoes i ddelio â'r rhai sy'n cymryd, cario neu'n gwerthu cyffuriau. O ganlyniad, nid oes angen cynnwys hyn fel amod o'r GGMC hwn.

GGMC Canol Tref y Rhyl 2024

Adborth ar yr ymgynghoriad

3. **Sylwadau unigol yn ymwneud â phryderon ynglŷn â chardota**

   Cafwyd 3 ymateb unigol, 3% o'r holl ymatebwyr i'r Arolwg

   Ein ymateb:

   Ni ellir gweithredu GGMC heb dystiolaeth helaeth o angen. Rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru dystiolaeth i'r awdurdod lleol, a gynhaliodd brawf cyfreithiol manwl i gyfiawnhau amodau'r Gorchymyn, a'r ardal y bydd yn berthnasol iddo. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dweud, yn seiliedig ar dystiolaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, na allant gyfiawnhau'n gyfreithiol gynnwys cardota.

Canlyniad yr Penderfyniad:

Ar ôl i'r Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau gymeradwyo Adroddiad Penderfyniad Dirprwyedig, gallwn gadarnhau y bydd Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar gyfer canol tref y Rhyl yn cael ei gyflwyno fel y'i cynigiwyd, ac fe ddaw i rym ar **4 Ebrill 2024**

Bydd arwyddion yn cael eu gosod o amgylch ffiniau'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus o leiaf 28 diwrnod cyn y daw'r Gorchymyn i rym.

I gael rhagor o wybodaeth ac i ddarllen y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus fel y'i cyflwynir yn llawn, ewch i brif wefan y Cyngor:
https://www.denbighshire.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/diogelwch-a-chefnogaeth-cymunedol/gorchymyn-diogelu-mannau-cyhoeddus.aspx